# RAP 1 2 3

*Ed Holden*

Cân**Sing**

## YNGLŶN Â'R GÂN HON

**Comisiynwyd y rap hwn gan CânSing, ac mae'n cyflwyno dysgwyr i rapio.**

## THEMÂU/TESTUNAU

Rap/cyfansoddi/bît bocsio

## CYSYLLTIADAU ALLWEDDOL CWRICWLWM

Ieithoedd, Llafaredd a Chyfathebu
Y Dyniaethau

## YSTYRIAETHAU SY'N BENODOL I'R DISGYBLAETH

### Cwmpas Lleisiol

Amherthnasol

### Ffurf Lleisiol

Rap/rhannau annibynnol

### Elfennau Cerddorol


Parhad a gwead

### Nodweddion Cerddorol

Rapio a bît bocsio, patrymau rhythm syml yn datblygu'n batrymau rhythmig cymhleth iawn.

## Ymarferion Cynhesu

- Gofynnwch i'r dysgwyr sefyll mewn cylch a chopïo ystumiau eich wyneb, o wyneb hir digalon i wyneb agored a hapus. Rhowch wên fawr a dangoswch eich bod yn codi'r bochau a chorneli'r geg. Gwnewch eich llygaid yn fawr ac effro a chodi'ch aeliau, yna chau eich llygaid eto. Gofynnwch i unigolion arwain a gweddill y dosbarth i gopïo'u hystumiau.
- Gofynnwch i'r dysgwyr sefyll gyda'u traed ychydig ar wahân, a'u breichiau'n hongian yn llipa bob ochr. Gofynnwch iddynt anadlu i mewn yn ddwfn a chwythu'r aer allan, gan osod y naill law a'r llall am eu hochr ar yr asennau, ac yna ar ran isaf eu cefn. Dylai'r dysgwyr allu teimlo'r symudiad o amgylch eu canol. Os oes gennych ddigon o le, ailadroddwch yr ymarfer hwn gyda'r holl ddysgwyr yn gorwedd ar lawr, er mwyn gweld a yw'n teimlo yr un fath. Er mwyn anadlu, rhaid wrth reolaeth ar holl ran uchaf y corff.
- Gofynnwch i'r dysgwyr ailadrodd geiriau'r pennill cyntaf ar eich ôl, un llinell ar y tro. (Gweler y daflen eiriau.)
- Dangoswch rythm nodweddiadol y gân:




## Awgrymiadau o gysyltiadau allweddol i'r Meysydd eraill, themâu trawgwricwlaidd a/neu chyd-destynau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol:

- Archwiliwch hanes a datblygiad rapio. Pryd a sut y daeth yn boblogaidd?
- Darganfyddwch fwy am rapwyr - oes yna unrhyw rapwyr neu bît bocswyr Gymraeg enwog a dylanwadol?
- Allwch chi gyfansoddi eich rap eich hun yn seiliedig ar bwnc materion cyfoes?

© CanSing Cymru 2022

**GRADDFA: CANOLRADD**

# RAP 1 2 3

*Ed Holden*

Càn Sing

## Addysgu a Dysgu

1 Dechreuwch drwy addysgu'r pennill cyntaf. Gan fod y rap hwn yn cyflwyno elfennau allweddol rapio, treuliwch amser yn trafod yr elfennau a gyflwynir ac eglurwch unrhyw eiriau newydd a'u hystyr.
2 Defnyddiwch wahanol ystumiau corfforol i annog y dysgwyr i ganu brawddegau cyfan ar un anadl ac, ym marau 12 ac 16, i sylwi ar y tawnodau sy'n ymddangos yng nghanol y brawddegau.
3 Gofynnwch i'r dysgwyr ymuno â'r recordiad o bennill 1. Gwnewch yn siŵr eu bod yn dilyn y rhythm yn fanwl gywir, gan ganolbwyntio ar y rhythmau trawsacennog.
4 Pan fydd y dysgwyr yn hyderus ac yn gyfarwydd â'r rhythm a'r geiriau, anogwch nhw i rapio heb gefnogaeth y recordiad, drwy glapio'r curiad. Os yw'r dysgwyr yn cael anhawster gydag adran arbennig, gofynnwch iddynt wrando arnoch chi neu ar y trac, ac ymuno.
5 Efallai y cewch fod dysgu'r alaw'n ddigon ar gyfer un sesiwn, a phenderfynu mynd i'r afael ag ail ran y gytgan yn y sesiwn ganlynol.
6 Cyflwynwch bennill 2. Gofynnwch i'r dysgwyr ddarllen drwy'r geiriau i ddechrau cyn ceisio rapio, ac yna i ymuno â'r recordiad. Anogwch y dysgwyr i wrando ar y rhythm ac i ganolbwyntio ar roi perfformiad manwl gywir gan ynganu'n glir.
7 Pan fydd yr holl ddysgwyr yn hyderus â'r ddau bennill cyntaf, rhannwch y grŵp yn ddau grŵp cyfartal. Rhowch y rap i'r naill grŵp (Rhan 1) a'r bît bocsio (Rhan 2) i'r grŵp arall.
8 Rhowch ddigon o gefnogaeth i'r ail grŵp (Rhan 2) a chwarae'r rhan bît bocsio er mwyn i'r dysgwyr ymgyfarwyddo â'r rhythmau. Yn y fan hon, gallai fod yn ddefnyddiol i edrych yn benodol ar ymarferion bît bocsio 2 a 3 (a awgrymir gyferbyn) er mwyn atgoffa'r dysgwyr o'r curiadau a gyflwynwyd.
9 Ceisiwch berfformio'r gân mewn dwy ran gyda'r recordiad, neu hebddo. Cyfnewidiwch y rhannau fel bod pawb yn cael cyfle i rapio a bît bocsio.

## Sgiliau Cyfannol

- Mae tri phennill i'r gân hon, a phatrwm bît bocsio mwy cymhleth yn ystod y trydydd pennill. Darllenwch drwy eiriau pennill 3 ac yna ymarfer gyda'r recordiad. Pan fyddwch yn fodlon â'r trydydd pennill, rhannwch y grŵp yn ddau grŵp llai a chyflwyno'r rhan bît bocsio yn y trydydd pennill.
- Ceisiwch berfformio'r rap yn ddigyfeiliant er mwyn annog y dysgwyr i wrando'n ofalus ar sain y rhythmau ac i ganolbwyntio ar y geiriau. Rhaid i'r geiriau fod yn eglur iawn, gyda chytseiniaid cryf, a seiniau pendant.
- Perfformiwch y gân gyfan mewn dwy ran. Efallai y byddwch yn ei chael hi'n ddefnyddiol i daro'r curiad ar offeryn taro di-draw. Rhowch amser i'r dysgwyr anadlu ar ôl yr atalnodau yng ngeiriau'r rap, gan fod y rhannau'n cynnig cryn her ac yn cynnwys rhythmau cymhleth.

© CanSing Cymru 2022

**GRADDFA: CANOLRADD**

# RAP 1 2 3

*Ed Holden*

## Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig:

*•Mae archwilio'r celfyddydau mynegiannol yn hanfodol er mwyn dyfnhau sgiliau a gwybodaeth gelfyddydol, ac mae'n galluogi dysgwyr i ddod yn unigolion chwilfydig a chreadigol•*

*•Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth gan dynnu ar y synhwyrau, ysbrydoliaeth a'r dychymyg•*

- Ceisiwch berfformio rap arall cyfoes. Gwrandewch ar recordiad ac annog y dysgwyr i ymuno pan fyddant yn teimlo'n hyderus. Efallai y byddwch yn cael bod dangos y geiriau i'r dysgwyr wrth iddynt wrando a'u perfformio'n ddefnyddiol.

- Gwerthuswch recordiad o artistiaid eraill yn rapio a thrafodwch ei brif nodweddion.

- Gallai'r dysgwyr gyfansoddi'u rap eu hunain ar unrhyw destun, efallai i adolygu geirfa newydd mewn pynciau eraill. Ar ôl cyfansoddi a pherffeithio'u syniadau, gallai'r dysgwyr berfformio'r rap o flaen gweddill y dosbarth, gan ddefnyddio allweddell fel cyfeiliant, neu ofyn i ddysgwyr eraill fît bocsio.

## Asesu ar gyfer Dysgu:

*•Mae ymateb a myfyrio, fel artist, ac fel cynulleidfa, yn rhan hanfodol o ddysgu yn y celfyddydau mynegiannol•*

### Holi

**Adnodd: Meddwl-paru-rhannu**

- Pa ran ydych chi'n ei mwynhau fwyaf – y rapio ynteu'r bît bocsio? Pam?
- Pa ran sydd fwyaf anodd? Pam?
- Sut y gallwn wella'n perfformiad?

### Adborth

**Adnodd: Sylwadau dros dro**
Rhowch sylwadau dros dro i'r dysgwyr ar feysydd y mae angen iddynt eu datblygu. Er mwyn gwella cywirdeb eu rhythm, mae'n bosibl y bydd angen i'r dysgwyr edrych eto ar rai brawddegau a gwrando ar y rap eto. Rhowch amser i'r dysgwyr ymateb i'r sylwadau hyn yn ystod y sesiwn, a rhoi mwy o sylwadau wedyn i weld a ydynt wedi bod yn llwyddiannus.

### Hunanesesiad / Asesiad gan gyfoedion

**Adnodd: Dwy seren a dymuniad**
Gwnewch recordiad o berfformiad grŵp o'r gân. Gwrandewch ar y recordiad hwn a gofyn i'r dysgwyr gynnig dau sylw cadarnhaol (sêr) ynglŷn â'u perfformiad ac un peth penodol i'w wella (dymuniad).

© CanSing Cymru 2022

**GRADDFA: CANOLRADD**